**LC462**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002**

Mae'r rhain yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chofrestru at ddibenion rhedeg neu reoli cartrefi gofal, cartrefi plant, ysbytai a chlinigau annibynnol, neu weithredu fel gwarchodydd plant neu ddarparydd gofal dydd.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Tynnir sylw'r Cynulliad at y pwyntiau canlynol. Mae sylwadau wedi'u cyflwyno ar ran y Gweinidog mewn perthynas â'r pwyntiau hyn, gan nodi, yn benodol, fod y rhai a fu'n gyfrifol am ddrafftio'r rheoliadau wedi cael eu hunain o dan gyfyngiadau amser llym iawn.

**Rheoliad 2(1) – "relative"**

Yn y llinell derfynol o'r diffiniad hwn dylai "husband and wife" fod yn "husband or wife". Dylai fod yn bosibl cywiro hyn yn y fersiwn gyhoeddedig.

**Rheoliad 9(a)**

Mae hwn yn gofyn bod y manylion am yr "appropriate office of the National Assembly" yn cael eu cynnwys yn y dystysgrif. Serch hynny, yn y diffiniad o'r term hwnnw, cydnabyddir ei bod yn bosibl nad oes swyddfa sydd wedi'i nodi'n benodol, a bod y term wedyn i fod i gyfeirio at unrhyw un o swyddfeydd y Cynulliad.

Oherwydd yr uchod nid oedd yn glir sut y dylid cydymffurfio â pharagraff (a) o reoliad 9 pan nad oedd unrhyw swyddfa benodedig.

Yn yr ymateb a gyflwynwyd ar ran y Gweinidog mae dilysrwydd y pwynt hwn yn cael ei gydnabod.  Serch hynny, yr wyf yn awgrymu na fydd hyn o bwys am fod yna gynlluniau i bennu swyddfeydd ar gyfer pob rhan o Gymru.

**Rheoliad 9(f)**

Mae hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod tystysgrif gofrestru yn cynnwys manylion am unrhyw amod y mae'r cofrestriad yn ddarostyngedig iddo, ac yn rhestru agweddau penodol ar ofynion yn yr amod sydd i'w cynnwys.

Gellid credu mai goblygiad hyn fyddai bod testun awdurdodol yr amod wedi'i nodi yn rhywle arall ac y byddai rhaid i fanylion yr amod, gan gynnwys y materion y cyfeirir atynt yn benodol, gael eu copïo wedyn i mewn i'r dystysgrif gofrestru.  Mewn gwirionedd, serch hynny, mae'n ymddangos mai yn y dystysgrif gofrestru y byddai unig destun awdurdodol y diffiniad.

O dan yr amgylchiadau hyn, dyma beth oedd yn destun pryder i'r Pwyllgor: os diben rhestru eitemau penodol ym mharagraffau (i) – (v) oedd nodi pa fath o faterion y gellid eu pennu mewn amodau, nid yw'n ymddangos bod y pwerau galluogi yn awdurdodi hynny.

Mae'r sylwadau a gyflwynwyd ar ran y Gweinidog yn cadarnhau mai diben y ddarpariaeth hon oedd peidio â nodi materion y gellid eu cynnwys mewn amodau.  Pwnc y ddadl felly yw'r pwynt drafftio ynglŷn â'r ffaith nad yw paragraffau (i) – (v) efallai o bwys ymarferol gan y byddai testun llawn yr amod o reidrwydd wedi'i nodi yn y dystysgrif gofrestru.

**Rheoliad 18(f)(g)**

Mae'r paragraffau hyn wedi'u hargraffu o fewn bachau petryal sydd wedi'u cadw'n anfwriadol o fersiwn ddrafft.  Dylid dileu'r bachau hyn yn y fersiwn gyhoeddedig.

**Atodlen 2, paragraff 10(2)(a) ac (c)**

Mae'n amlwg nad yw'r cyfeiriadau at  "section 113(313)" yn gywir.  Unwaith eto dylid cywiro hyn yn y fersiwn gyhoeddedig.

**Sylwadau Cyffredinol**

Tynnir sylw at y ffaith y dylai'r dyddiad gwneud fod wedi'i gwblhau yn y copi o'r rheoliadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. O ran y sylwadau dilynol, credir y gallai pob un o'r rhain, ac

eithrio’r pwynt sy’n ymwneud â rheoliad 13, gael ei gywiro yn y fersiwn gyhoeddedig, os dyna’r dymuniad.

**Y rhaglith a'r geiriau deddfu**

Mae'r rhain yn ymddangos o flaen yr “Arrangement of Regulations”. Yr arfer cyffredinol, yn ôl yr esboniad ym mharagraff 2.22 o *Statutory Instrument Practice*, yw bod y rhaglith yn ymddangos ar ôl y tabl y drefn gan nad yw tabl y drefn yn rhan o'r offeryn fel y cyfryw.

**Y troednodiadau**

Mae'r troednodiadau ar dudalennau 5 a 6 yn aros i gael eu cwblhau. Mae troednodyn (a) yn y rhaglith ychydig yn gamarweiniol. Mae'n dweud bod yr "appropriate Minister" wedi'i ddiffinio yn adran 121(1) mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond nid yw'r datganiad ei fod yn cynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod hyn hefyd yn adran 121(1). Hefyd, mewn gwirionedd, mae angen tynnu sylw'r defnyddiwr at adran 5 i gadarnhau mai cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r cyfeiriad yn adran 121(1)(b) at “the Assembly”.

**Rheoliad 12(2)(d)**

Mae wedi’i gadarnhau bod y cyfeiriad at “any regulation made under section 15(3)” yn adlewyrchu bwriad i bennu’r ffi mewn rheoliadau ar wahân. Er hynny, gan fod y rheoliadau presennol eu hunain yn cael eu gwneud o dan adran 15(3), buasai troednodyn o gymorth i gyfeirio'r defnyddiwr at y rheoliadau lle gellid dod o hyd i’r ffi.

**Rheoliad 13**

Oherwydd bod y gofyniad hwn wedi'i osod fel darpariaeth sy’n "supplementary, incidental or consequential [upon]" y ddarpariaeth y gall y Cynulliad ddileu cofrestriad odani ar sail diffyg hyfywdra ariannol, buasai'n fwy priodol petai’r gofyniad wedi'i roi yn Rhan V.

**Atodlen 1 Rhan I**

Defnyddir iaith ryw-benodol ym mharagraff 1(f)(ii).

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

30 Ebrill 2002